**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD MERCHER, 31 GORFFENNAF, 2013**

**WEDNESDAY, 31 JULY, 2013**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR DAFYDD ORWIG,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**CAERNARFON**
**am /at 11.15am.**

**(Aelodau'r Is-bwyllgor yn unig i gyfarfod ger Zam Zam, 308, Stryd Fawr, Bangor am 10.30am)**
**(Sub-committee members only to meet near Zam Zam, 308, High Street, Bangor at 10.30am)**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 23/07/13

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd/Chairman)

Ann Williams

Elfed Williams

Eddie Dogan  (wrth gefn/reserve)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Gwynfor Edwards

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. 11.15am CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – ZAM ZAM , 308, STRYD FAWR, BANGOR**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **glas**)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **31 GORFFENNAF 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO – ZAM ZAM, 308 STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo Zam Zam Foods, 308 Stryd Fawr, Bangor LL57 1UL gan ddeilydd y drwydded, Mr Khaliq Noor.
Gwneir y cais er mwyn ceisio am ymestyniad o awr a hanner yn ychwanegol, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos. Gofynnir hefyd am awr ychwanegol i hyn ar noswyl y Nadolig a nos Calan.

| Gweithgaredd trwyddedig | Trwydded gyfredol | Trwydded arfaethedig |
|---|---|---|
| Cyflenwi lluniaeth hwyr y nos | 23:00 – 02:00 | 23:00 – 03:30 |
| Oriau agor a chau | 09:00 – 05:00 | 09:00 – 05:00 |

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais ac fe gafwyd sylwadau a gwrthwynebiad i’r cais gan berchennog busnes cyfagos a Cyngor Dinas Bangor. Cyflwynwyd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn y man cychwyn, ond yn dilyn trafodaeth gyda’r ymgeisydd, fe gafwyd cytundeb yn ddarostyngedig i amodau penodol.

### Sylwadau yr Heddlu

Yn dilyn trafodaeth gyda’r ymgeisydd, mae’r Heddlu yn datgan fod yr ymgeisydd wedi cytuno i gyfyngu oriau gweithgareddau trwyddedig i 03.00 y bore dydd Sul hyd ddydd Iau , a 03:30 nos Wener a Nos Sadwrn.
Mae cytundeb yr Heddlu i gymeradwyo’r cais hefyd yn ddarostyngedig i gytundeb yr ymgeisydd i dderbyn amodau ychwanegol mewn perthynas â TCC, a chyflogi goruchwylwyr drysau ar gyfer yr awr olaf o weithgaredd trwyddedig ar nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn.

Gweler manylion llawn gohebiaeth yr Heddlu ynghlwm a’r adroddiad hwn.

### Gwrthwynebiad Cyngor Dinas Bangor a pherchennog busnes lleol

Gwrthwynebir ar sail yr amcanion trwyddedu -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Rhwystro niwsans cyhoeddus

Gweler manylion llawn y gwrthwynebiadau ynghlwm a’r adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.